

# Adlais

Y dosbarthaiadau cymraeg

## Pwt o Drelew

Dyma fy mhwt olaf i o Drelew. Fel y gwychoch, byddaf yn dychwelyd i Gymru ym mis Awst.

Mae wedi bod yn flwyddyn a feufis prysur a diddorol iawn, a bydd gen i chwihod mawr am y lle yma. Eleni, cafwyd dosbarthiadau plant ym Madryn yn ogystal ag yn Rawson. Yn Nhref, sefydwyd Ysgol Feithrin ac Ôl-Feithrin. Penodwyd swyddogion i Bwyllgor Ysgol Gymraeg Trelew, Rawson a Madryn.

Cafwyd diwrnodau llwyddiannus iawn dros y misoedd diwethaf fel y wibdaith i Argae Amhegino ym mis Hydref; Miri Madryn ym mis Ebrill, ac fe ddangoswyd y fideo, «Nadolig y Paith» ym Madryn, Rawson a Threlew. Cafodd eraill gyfle i wlyio rhaglenni Dai Jones ym Mhatagonia a Dafydd Iwan yng Nghorwen.

Bu Ysgol Gymraeg Trelew, Rawson a Madryn yn brysar iawn yn MiniEisteddfod Bethel, Gaiman. Daeth y geats «Y Dosbarth Cymraeg» yn gydradd gyntaf, a'r parti cyd-adrdd yn gyntaf hefyd. Daeth Sergio Cazeaux, Trelew yn ail am adrodd unigol, a daeth Sofia Jones, Playa Union yn gyntaf am adrodd hyd 7 oed. Yn yr adran waith cartref, daeth Dosbarth Cymraeg Blwyddyn 4 Trelew, yn gyntaf am gyfansoddi cerdd acrostic; Romina Herrera yn gyntaf am ysgrifennu llythyr e-bost, Flavia Chore yn ail a Gwendolin Jones yndrydd. Daeth Fernando Coronato, Lorena Paralta, Silniva Garzonio Jones a Marcelo Gavirati, Porth Madryn yn fuddugol mewn cystadlaethau gwaith cartref a Graciela Colosante de Pincirioli o Drelew. Longyfarchiadau i bawb. Dalwch ati i ysgrifennu.

Cofiwch am y Llyfrgell Adnoddau sydd wedi ei sefydlu yn Neuadd Dewi Sant, Trelew. Gallwch fenthylg llyfrau am ddim am lyfthefnos, neu am \$1, fideo neu gryno ddisg am wythnos.

Rwyf wrthi'n paratoi gwefan (paginas web) fydd yn sôn am Ysgol Gymraeg y Wladfa. Os dach chi isio cyfrannu pwt neu luniau, buaswn i'n hoffi i chi gysylltu gyda mi.

Mawr ddiolch i bawb sydd wedi fy helpu gyda'r holl weithgareddau ac am gystadlu mewn gwahanol gystadlaethau neu gymryd rhan mewn pob math o weithgareddau fel Twmpath Dawns, Noson Lawen, cyd-adrdd, «bore paned a sgwrs», un o nosweithiau'r Clwb Siaradwyr neu am brynu crys T o'r 150 gaffod eu hargraffu! Da chi, daliwch ati i gystadlu, i sgwennu i Adlais a'r Draffod, ac yn bwysicach fyth, daliwch ati i ddsysgu ac i ymarfer eich Cymraeg!

Diolch am bopeth, tan tro nes

Rhys Llewelyn (rhysllew@yahoo.co.uk)

FABIO LEWIS, DOLAVON YN HOLI RHIAN JONES TRWY'R E-BOST. BUODD RHIAN YN ATHRAWES YN YR ANDES HYD FIS MEHEFIN 2001

## «DIOLCH O WALEOD FY NGHALON am eich croeso ac am eich caredigrwydd.»

Bues ti'n Y Wladfa am flwyddyn. O le wyt ti'n dod, ta? O Llambed dw i'n dod yn wreiddiol. Mae Llambed yn envog yn Y Wladfa, wrth gwrs - ond nid am fy mod i'n dod o'r dref! Mae'n adnabyddus achos mai yn Llambed y mae pobl yn gwneud y cwrs Wlpan ym mis Gorffennaf a mis Awst.

Be ot ti'n neud yng Nghymru? Lle ot ti'n gweithio? Ot ti'n mwynhau dy waith yno?

Cyn mynd i'r Ariannin, roeddwn i'n byw yn y gogledd, ac roeddwn i'n gweithio mewn coleg ger Rhuthun. Enw'r coleg ydy Coleg Llysfasi, ac mae'n bosib astudio pob math o bethau yno - fel amaethyddiaeth, busnes, trin gwallt, a pheirianneg. Roeddwn i'n gyfrifol am drefnu'r cyrsiau Cymraeg a'r cyrsiau leithoedd Modern, ac am ddsysgu dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion. Roeddwn i'n hoffi gweithio yno gan fy mod i'n teithio llawer gyda'r gwaith ac yn cael cyfle i gyfarfod â phobl wahanol a diddorol. Hefyd, mae staff yn y coleg yn gyfeillgar iawn a'r rhan fwyaf ohonynt nhw'n siarad Cymraeg.

Sut wnest ti'r penderfyniad i ddod i'r Wladfa fel athrawes? Lle wnaeth dy ddi-ddordebau gychwyn?

Rydw i bob amser wedi bod yn awyddus i weithio mewn gwlad arall - rwy'n credu ei bod hi'n gwneud lles i fyfwr mewn man lle mae'r diwylliant a'r iaith a'r ffordd o fyw yn wahanol. Ac roeddwn i eisiau dod i'r Wladfa yn arbennig am fy mod i wedi clywed cyniant am y lle. Roedd dwy o'm ffrinidau i wedi treulio peth amser yn Nhref yn astudio Sbaeneg, ac roeddwn i wedi cyfarfod â rhai o ddsysgwyr Y Wladfa pan oeddwn nhw ar y cwrs Wlpan yn Llambed. Ac, wrth gwrs, mae'r prosiect wedi cael tipyn o sylw ar y cyfryngau yng Nghymru.

Oedd yn hawdd i ymgartrefu yn yr Andes? Be wnest ti ffindio yn neis neu yn wahanol, a be oedd yn anodd neu yn ofnadwy i ddod i arfer, wrth gwrs...?

Roedd hi'n hawdd iawn ymgartrefu, ac roeddwn i'n synnu cyn lleied o hir aeth oedd gen i am Gymru! O'r dechrau cymaf, roeddwn i wrth fy modd yn byw yn y Ty Capel yn Nhref, ac rwy'n ystyried y cyfle o gael byw yn y ty hwnnw fel un o uchafbwyntiau'r flwyddyn - profiad anhygoel oedd codi yn y bore a gweld mynydd Gorsedd y Cwmwl o ffenestr y gegin.



Roeddwn i hefyd wrth fy modd yn byw mewn cymdogaeth mor glos, lle yr oedd pobl yn stopio i siarad â fi ar y stryd, a phobl yn y siopau yn cynnig mae pan oeddwn i'n mynd i wneud ffotogopiau! Dw i'n colli hynny'n fawr ar ôl dychwelyd i Gymru - mae pobl yn byw bywydau mwy unibwrymwl yma, ac mae nhw'n brysio o un lle i'r llall yn lle aros i sgwrsio. Roedd hi'n hawdd setlo yn yr Andes hefyd am fod cynifer o bobl yn garedig iawn tuag at i, ac am fod Nia (yr athrawes arall) yn gwmi da. Yn sicr, y peth anodda' wrth setlo yn Yr Ariannin oedd fy mhrinder Sbaeneg i. Doeddwn i ddim yn gallu sgwrsio â phobl fel ag yr oeddwn i eisiau, ac roedd hynny'n deimlad rhwystrdig iawn. Erbyn y diwedd, roeddwn i'n gallu deall a dweud mwy, er 'mod i'n cyfarhentu mewn dull tebyg i Tarzan! Taswn i wedi cael amser, mi faswn i wedi ddsysgu mwy o Sbaeneg cyn mynd allan i'r Ariannin.

Beth wyt ti'n feddwi ddylai athrawon wybod cyn dod yma? Neu be ddylen nhw ddsysgwyl...?

Heblaw am yr angen i ddsysgu Sbaeneg, dw i'n credu y dylen nhw gael eu rhybuddio ei bod hi'n bosib codi llawer o bwysau yn ystod y flwyddyn! Mae bywyd Yr Ariannin yn ardderchog!

Wel, wyt ti'n nôl yng Nghymru rwan. Sut wyt ti'n gweld Y Wladfa o'r ochr yna? Ac i orffen, be ydi dy neges i ni fel pobl sy'n Gymru o'r gwaelod ac yn Gymru o ddewis...?

Pan gyrhaeddais yn ôl yng Nghymru, un o'r pethau wnaeth fy nharo i fwyaf oedd pa mor fach ydy popeth yma - mae popeth mor agos at ei gilydd, a'r ffyrdd mor gul. Mi sylweddolais i wedyn pa mor llydan ydy strydoedd Yr Ariannin a pha mor eang ydy'r wlad. Ers dod yn ôl i Gymru dw i'n colli llawer o bethau, ond yn fwy na dim arall dw i'n colli'r bobl ac yn colli'r ffordd o fyw.

Wrth edrych yn ôl dros y flwyddyn, fy neges i ar gyfer pobl Y Wladfa yw DIOLCH O WLAEDD FY NGHALON am eich croeso ac am eich caredigrwydd. Wrth edrych ymlaen at y dyfodol, y neges yw «daliwch ati». Cydweithwch - gyda'ch gilydd a chyda'r athrawesau newydd - er mwyn i'r Gymraeg fynd o nerth i nerth yn Y Wladfa.



Acrostic "DOLEN YSGOLION": Cyntaf yn MiniEisteddfod Bethel, Gaiman

Y Dosbarth Cymraeg

Dan ni'n mynd i'r dosbarth Cymraeg

Ond dan ni'n cyrraedd yn hwyr!

«Lle mae pawb?»

Elsie, Anita, Ansel, Graciela, Celia, Nita, Adriana ac Andina.

«Neb yma!»

Yn y bore bach

Siaradwch yn Gymraeg!

Gwrandewch ar yr athro Rhys!

Oooooooooo!

Luned Gonzalez yn dod heddiw

I weld sut dan ni'n ddsysgu.

«Oooooo, dan ni wedi dod yn gynnar heddiw,

neb yn hwyr!»

Blwyddyn 4, Trelew

CASA DE TE

# Ta Grasya

9 de Julio 111 - Tel: (02965) 491009

Gaiman - Chubut - Patagonia Argentina

E-Mail: tygwya@cpsarg.com

FORRAJERIA



# Agro Valle

Todo para el agro. Los mejores precios y la mejor calidad.

E. Tello 502 - Gaiman - Telefax: 491461

# CS

Servicios Agropecuarios camposur

POPETH AT WASANAETH POBL Y FFERMYDD LLE DA I BRYNNU HADAU

Paraguay 55 - Trelew  
Teléfono: 436259

# Adlais

Holi Clydwyn ap Aeron Jones gan Fernando Coronato, Porth Madryn

## Historia del Arpa, a través de imágenes

Ble cawsoch chi eich geni?  
Ar fferm yn agos i'r Gaiman, Rhymni yn ardal Bryn Crwn, sef ochr ogleddol i'r afon. Mae o rhwng Dolavon a Gaiman.

gwyddau o gwmpas y ty. Cathod a chwn. Bywyd fferm.

Oeddech chi'n hoffi cael anifeiliaid?

Bues i'n byw pan o'n i'n fach efo anifeiliaid bob amser. Yn godro gwartheg a mynd â llaeth i'r ffatri mewn trap. Yn y bore bach, ar ôl

gorffen godro, paratoi'r trap yn barod a dau neu dri kilometr tua Dolavon lle roedd y ffatri gaws.

Pryd ddechreuodd eich diddordeb mewn cerdd?

Yn fuan iawn, mynd i'r capel a chanu a mynd i'r côr a pharatoi erbyn y steddfod.

Tan bryd wnaethoch chi fyw ar fferm?

Tan on i'n 15 neu 16. Ron i wedi dechrau mynd i'r ysgol ac yn byw ar y fferm ac wedi aros mewn boarding school yn Nhrefwael, Ar ddiwedd yr wythnos ron i'n cymryd tŷ yn ôl i'r dyffryn, ac roedd yna stesion rhwng Dolavon

a'r Gaiman. Amser ron i'n dod nôl ron i'n cael sbort yn mynd trwy'r twnel. Gweld y lle yn tywyllwch, cuddio a chwarae. Dw i'n cofio rhyw ddiwrnod mi wnes i gymryd y trê a doedd gen i ddim arian, ron i wedi gwario'r arian oedd gen i i dalu am y ticet, ac roedd yna Gymro'n dod. Dywedais wrtho nad oeddwn wedi cael ticet, «O mi dala i 75 cent», medda fo.

Dach chi'n meddwl bod yr hinsawdd wedi newid?

Posib iawn. Roedd y tywydd yn fwy gwastad a ddim mor gyfnewidiol fel heddiw. Roedden ni'n cael wythnosau hir o wres ac wedyn glaw mawr. Pan oedd hi'n

glawio doedden ni ddim yn gallu symud o'r fferm. Ron i'n mynd ar gefn ceffyl adref efo Tada yn dod i fy nôl ac yn mynd â fi adref.

Beth oedd eich hwyl chi?  
Chwarae cuddio. Un yn cyfri uno, dos, tres. Yn Gymraeg i gychwyn ac wedyn yn troi yn raddol i'r Sbaeneg.

Ble a phryd ddechreuoch chi ddysgu Sbaeneg?

Pan es i i'r ysgol yn 6 oed. Doeddwn i ddim yn gallu siarad efo plant ddim ond Cymraeg.

Beth am eich cymdogion, roedden nhw'n Gymry i gyd?

O na, roedd yna Sbaeniad hefyd. Roedd rhai yn rhen tu i'r fferm oedd yn dod o'r arall fel Italians, Sbaeniad.

Pam ddechreuoch chi ysgrifennu llyfr am delynu?

Achos bod y delyn yn o'r offerynnau hynaf yn y byd. Mae hanes y delyn yn Genesis yn y Salmau yn y Beibl, ac mae'r Celtiaid hefyd yn defnyddio'r delyn fach.

Fuodd ddim cyfle i mi ddysgu i ddysgu'r delyn.

Fuodd ddim delyn yn gweithio yn ty amser i yn y dyffryn. Un o'r anhwasterau mawr oedd nad oedd yn bosib cael tannau i'r delyn, ac mae yna 40 neu ragor o dannau. Pan oedd yn y tori roedd yn rhaid dod â nhw o Gymru yr amser hynny. A rwan dan ni'n gorffod eu cael o'r UDA. Wnaeth neb ddysgu telyn fan hyn ar ôl Eluned Morgan ac Eluned Llwyd. Un dilyn fawr sydd yn y dyffryn ar hyn o bryd sef telyn Catrin Morris. Mae yna delyn fach Geltaidd yn Ny Gwyn, Gaiman.

Roedd gen i lawer o luniau o delynu o wahanol lefydd trwy'r byd, ac wedyn feddylies i am roi ychydig o hanes y delyn yn y gwledydd lle mae'r delyn wedi bod yn gweithio. Bues i'n sgwennu mewn papur newydd ar ddydd Sul am dros ddwy flynedd. Mae llawer o luniau yn y llyfr.

## Delia Evans yn holi Fernando Coronato...

Pam wyt ti wedi dangos diddordeb yn y Cymry?  
*Des i o hyd i'r byd y Celtiaid, pan on i'n byw yn Llydaw - amser maith yn ôl. Am y tro cyntaf yn 1977. Des i o hyd i ddiwylliant gwahanol a diddorol dros ben. Wedyn, pan ddes i'n ôl yma, sylweddolais fod Celtiaid eraill yn yr Ariannin sef y Cymry yn Mhatagonia. Dyna lle mae'r diddordeb wedi dechrau.*

Pryd wnest ti ddechrau dysgu'r iaith?  
*Dechreais am y tro cyntaf gyda Eifed Williams yma yn Madryn yn 86. Wedyn, pan ddaeth Gwilym i roi dosbarth yma, bues i'n astudio ers hynny.*

Pryd wnest ti ddechrau ymchwilio ar gyfer y llyfr diwethaf am y llythyrau?

*Mae diddordeb mawr gen i am yr ogofau ym Mhorth Madryn lle glaniodd y fintal gyntaf, ac roeddwn i'n awyddus i astudio ffynhonnellau gwahanol. Dyna pam y bues i'n ymchwilio mewn llythyrau, hen lyfrau a dogfennau gwahanol. Des i o hyd i llyfrau bach diddorol iawn, llythyrau a ddaethant o sefydlwyr ym Mhatagonia. Penderfynais gyfeithu y llythyrau i'r Sbaeneg.*

*Faint o amser gymrodol i sgwennu'r llyfr «Patagonia 1875 - Carta de los Colonos Galeses»?*

*Tua bliwddyn. Ond mae llyfr arall cyn hynny gan Thomas Jones, Glan Camwy - hanes cychwyniad y Wladfa ym Mhatagonia. Cefodd ei gyhoeddi yn 99, ac mae llyfr arall yn dod allan cyn hir, eleni efallai, gan Richard Jones, Glyn Du. Mae o'n sôn hefyd am y dechreuad ac mae'n diddorol dros ben. Dw i'n meddwl fy mod i'n gallu helpu'r diwylliant Cymroeg yma yn y ffordd yma.*

Sut wnest ti ddechrau'r gwaith am amgueddfa'r ogofau?

*Roedd cynllun gen i i baratoi rhyw le, lle roedd pobl yn gallu cael gwybodaeth am yr hanes a ddiwyddodd yn y lle hwn. Nawr, daeth cyfle trwy Centro Patagonico i gael lle, felly dan ni'n galla ymuno dau beth. Mae dau safle yn yr arddangosfa: hanes y glanio ar un llawr (does dim pethau neilltuo i ddangos, posteri, lluniau mapiau ac ati) ar y llawr mae sioe am grefftau'r Indiaid. Mae'r sioe ar agor pob dydd yn y pwnn rhwng 2 o'r gloch a 6 o'r gloch ar wahan i ddydd Llun, ac mae'n costio \$1.*

Os oes rhywun yn cadw hen bethau, oes cyfle i'w rhoi i'r amgueddfa?

*Mae'n dibynnu pa fath o bethau. Pethau sydd gyda chysylltiad gyda'r Glanio ym madryn, o efallai, ond gyda phethau eraill dw i ddim yn siwr.*

Mae llawer o bobl hyn sy'n gallu siarad Cymraeg heb neb o'u teulu yn siarad Cymraeg. Be ddylent wneud gyda dogfennau Cymraeg?

*Eu rhoi nhw i archif Talaith Chubut yn Rawson.*

## FFARWELIO!

Daeth yn ddiwedd cyfnod yn fy hanes a rhaid cau'r dyddiadur - am y tro. Ar y cyntaf o Awst byddaf yn codi fy adenydd ac yn hedfan yn ôl i Gymru fach. Bu'n bymtheg mis gwahanol iawn ac yn brofiad i'w drysori weddill fy oes.

Ar brynghawn Llun cefais dreulio orig yn mwynhau cwmni dosbarth o bobl ddiwylliedig Trelew. Cefais fy synnu, o'r dechrau gan mor raenus yw eu Cymraeg - llafar ac ysgrifenedig. Dyma gyfle i'roi'r byd yn ei le' mewn dull diffe Wyn ar dafod. Does dim gwenaethu yn perthyn i'r criw yma. Pwy all anghofio getys d-ri Gweneira? Rhaid iddi gyhoeddi casgliad ohonynt i wneud yn siwr eu bod yn aros ar gof a chadw. Diolch i Mario Jones am ei waith diflino yn cadw trefn ar yr athrawon Cymraeg!

Bu Dolavon ar ddydd Llun a Mercher yn chwa o awyr iach. Mwynhaeis gwmi ac agosatrwydd aelodau'r dosbarthiadau. Braint arbennig oedd cael Gwalia Davies de Evans yn y dosbarth siaradwyr. Dysgais lawer am fywyd o wrando arni. Diolch i Nivia Owen de Burgoa am ei gwaith caled yn trefnu'r dosbarthiadu.

Fy nghartref yn Gaiman oedd Ty Camwy, ar ei newydd wedd. Yno roedd y rhan fwyaf o'r dosbarthiadu yn cael eu cynnal. Mae tŷ o ddysgwyr disglair, bywiog yn prysur gael gafael ar yr iaith. Fel y gwelwch yn y rhifyn hwn o'r Adlais, mae ysgrifennwyr hyderus a diddorol yma hefyd. Cawsom nosweithiau Mawrth bywiog yn Y Siop Siarad. Cofiwch droi i mewn rhwng wyth a naw o'r gloch. A sôn am 'siarad'. Y cyfraniad mwyaf gwerthfawr i ddysgwyr yw cael pobl yn rhoi cyfle iddyn nhw ymarfer yr iaith. Does fawr o bywnt mewn dysgu iaith os nad oes neb yn ei siarad gyda chi! Diolch i Luned Roberts de Gonzalez am ein thoi ar ben ffordd a'n tywys i'r cyfeiriad cywir. Bu ei chefnogaeth hi a'i theulu yn amhrisiadwy.

Gwell peidio dechrau enwi wrth ddiolch; mae caredigrwydd pobl Gaiman wedi bod yn anhygoel. Y trueni yw nad oes digon o oriau mewn diwrnod i allu picio i mewn at hwn a'r llall am sgwrs. Daw cyfle eto! Diolch am nos Suliau Capel Bethel, yr Eisteddfodau ac am gael canu a bod yn rhan o hwyl Côr Gaiman. Bydd eu cryno ddisg yn cael ei chwarae'n dwll ar ôl i mi fynd adref.

Bydd Sara Eysyllt Jones, athrawes Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Caereinion, Sir Drefaldwyn, Canolbarth Cymru yn cyrraedd ar y cheched ar hugain o Orffennaf ac yn dechrau ar ei gwaith ar y cyntaf o Awst. Pob dymuniad da iddi.

Felly, dyma roi pen ar y mwdwl a gobeithio caf eich gweld yn fuan. Tan tro nesau...

Nans Rowlands

## Byw yn y de

Ces i fy ngeni yn Nhrefwael. Trwy'r amser ron i'n meddwl ron i'n byw yn ne yr Ariannin ond yn 1997, mi wnaethon ni symud 1500 km i'r de i Galefate! Nawr te, ron ni'n byw yn y de go iawn!

Ron i'n byw yn Calefate rhwng 1997 a 2000 ac ron i'n hoffi byw yno ond ron i'n hiraeithu am yr haf! Roedd hi'n heulog ond doeddech chi ddim yn gallu gwlychu eich bys yn y llyn! Roedd hi'n oer yn y gaeaf achos roedd hi'n bwrw cira yn fawr. Roedd llyn oedd yn agos i Galefate wedi rhewi'n gorn. Ron i'n mwynhau sglefrïo ac roedd Lara, fy hogan, yn hoffi reidïo beic ar ben y rhesw. Roedd fy ngwr yn dreifio llong ar y llyn, felly ron i'n gallu teithio pob penwythnos! Roedd parc cenedlaethol «Los Glaciares» yn ddol iawn, ac ron ni'n

mwynhau mynd am dro yn agos i'r rhewlifoedd.

Ron i'n gweithio yn y banc, felly ron i'n gallu cyfarfod llawer o dwristiaeth. Roedd yn rhaid i mi weld pasport pawb, felly ron i'n ffendïo Cymry!! Un diwrnod, mi wnes i gyfarfod mam Catrin (athrawes Gymraeg 1998-1999), ac ron i'n siarad Cymraeg yng Nghalefate!

Roedd llawer o lefydd neis i ymweld â nhw. Ron ni'n mynd i Chalten, rhwng mynyddoedd Fitz Roy a Torre, oedd yn agos i Laguna del Desierto. Roedd Chile yn agos hefyd, ac roedd yn bosib i bobl groesi y Tones del Paine Puerto - Natales a Puert Hoenas. Roedd llawer o hen dai yno i gysgu dros nos ac ron ni'n bwyta asados blasus yno. Roedd mam a dad yn sefyll efo ni am rai diwrnodau, a dw i'n meddwl roedden nhw hefyd yn mwynhau byw



yn y de! Nawr te, dw i'n byw ym Mhorth Madryn. Yn Calefate, ron ni'n breuddwydio am long, a nawr te, mae llong efo ni. Ond dw i'n meddwl bod byw yng Nghalefate yn wych hefyd!!

Silvina Garzonio Jones, Porth Madryn

## Adlais

### Mae'r lle yn hyfryd

Nos Iau, am hanner awr wedi naw, mi wnes i fynd i Drevelin ar y bws. Roedd y daith yn dda iawn achos cysgais trwy'r nos. Ac er bod y nos yn oer iawn, wnes i ddim ei deimlo achos bod y bws yn gynnes. Cyrhaeddais orsaf Esquel am chwech o'r gloch y bore. Wedyn, cymerais dacs i fynd i Drevelin i gartref Ellis Williams. Gwnaeth o a Gwladys ei wraig, baned o de neis. Am wyth o'r gloch, o'r diwedd, ron i wedi cyrraedd fferm Ellis lle arhosais am dri diwrnod. Roedd y lle yn hyfryd!

Mi wnes i weld llawer o eira ar y mynyddoedd ac roedd lot fawr o ddrwr ar y ffermydd ar ôl glaw mawr. Dydd Sadwrn, mi wnaethon ni gerdded ar lwybr a chael tynnu aml i lun.

Roedd gan Ena gath dlws iawn a chath fach chwaraeus. Mi wnes i nabod Valmai, chwaer Ena, a'i gwr Edwardo. Roeddynt yn byw ar fferm yn agos.

Dydd Sul, mi wnaethon ni fynd yno i ginio. Roedd



Valmai wedi gweithio'n galed i wneud «noguis» gyda thatws neis o'r ardd. Yn y pŵn, mi wnaethon ni fynd at «Argae Futaleufu» yn y lori fach efo teulu Ena. Roedd y mynyddoedd, y coed, nentydd a'r Afon Fawr (Rio Grande) yn fendigedig! Diolch i Dduw! Byddia i yn cofio am amser hir, caredigrwydd pobol yr Andes!

Anita Lewis, Trelew

### Yr ardal lle ron i'n byw o'r blaen

Ron i'n byw yn Florida. Mae Florida yn le mawr ym Muenos Aires. Roedd Florida yn ardal hyfryd gyda llawer o goed. Mae rheilffordd gyda Florida, ac ron i'n byw ger yr orsaf drên.

Pan o'n i'n blentyn ron i'n chwarae pêl-droed yn y stryd, ond nawr tydy hi ddim yn bosib achos mae llawer o geir yn gwibio yn ôl ac ymlaen trwy'r dydd, yn anffodus. Yn yr haf, pan oedd y carnifal, ron i'n chwarae gyda dŵr yn y stryd hefyd. Roedd llawer o bobl, plant ifanc, yn taflu dŵr o'r naill i'r llall. Mae gen i lawer o ffrindiau sy'n byw yn Florida, a phan dw i'n mynd i Fuenos Aires, dw i'n hoffi cwrdd â nhw.

Marcelo Gavirati, Porth Madryn

### Olga Edwards

Olga Edwards dw i. Ces i fy ngeni yn Gaiman ac yn byw ym Mhorth Madryn ers 1971. Mae gen i ddau hogyn Raúl (30 oed) ac Oscar (29 oed); a dwy hogan, Natalia (24 oed) a Sandra (22 oed). Mae gen i ddwy wyres a dau wyr hefyd.

Dw i'n hapus yn byw ym Mhorth Madryn. Mae'r tywydd yn dda, a dw i'n mwynhau gweld y môr pan dw i'n dewis.

Dw i'n mynd i gerdded ar hyd y traeth bron pob dydd efo Sandra fy merch, yn y ganwyn a'r haf, ac ar ôl cinio yn y gaeaf.

Dw i'n licio coginio a gweithio yn yr ardd, ac wrth gwrs, dw i'n mwynhau'r dosbarth Cymraeg.

Olga Edwards, Porth Madryn

## Miri Madryn 28ain Ebrill 2001



Ar ddydd Sadwrn, 28 Ebrill mi gwrdon ni efo siaradwyr Cymraeg ym Madryn.

Roedd yr athrawon Cymraeg wedi paratōi chwaraeon, helpa drysor ac ati. Wnaethon ni ddechrau yn y bore, cwrdd yn Na Praia - caffi ar y traeth ym Madryn. Cael sgwrs am awr, wedyn cael cinio â chwrdd nôl am hanner awr wedi dau, wrth ymyl y Gymraes wrth gwrs!

Buodd y Pregethwr Edwards a'i wraig, Nans Rowlands, Menna George o'r Gaiman; Silvina, Fernando, Marcelo, Lorena a fi o Fadrin. Wedyn, naethon ni gerdded at Ty Tschke, ty sy'n biau'r Gymdeithas Ddiwylliant Cymraeg. Aethon ni hefyd i weld lle'r oedd y fintai gyntaf yn cael dŵr glân i yfed ac i'r anifeiliaid pan wnaethon nhw gyrraedd yn 1865. Erbyn hyn, mae'r lle wedi newid a does dim dŵr. Maen nhw wedi codi adeilad yno. Dw i ddim yn meddwl roedd yn syniad rhy gall i wneud ty mewn lle mor wlyb. Wedyn, cerddon ni'n ôl i'r dre a mynd i gael rhyweth i yfed.

Ges i bnawn gwych. Ges i gyfle i siarad yn Gymraeg drwy'r pŵn. Roedd y tywydd yn heulog o braf, diolch byth. Roedd Rhys yn y gwely yn sâl, ond cafodd o wybod popeth gan Nans a Menna, a chafodd o luniau hefyd.

Os mae rhywun isio ddo flyddyn nesaf, gadewch i ni wybod i baratōi.

Dw i'n gwahodd pawb sy'n dod i Fadrin i fynd i weld Amgueddfa Punta Cuevas, Mae hanes yr Indiaid a'r Cymry yno. Mae gwaith ardderchog wedi ei neud gan Fernando Coronato. Llongyfarchiadau.

Delia Evans, Porth Madryn

### Fy Ngwyliau diwethaf

Bues i ar wyliau yn yr haf. Doedden nhw ddim rhy hir, dim ond pedwar diwrnod ardderchog. Nawr, pan dw i'n aros tipyn bach i goffio am yr amser hwn, dw i'n gwenu a dw i'n teimlo'n hapus dros ben!

Es i allan gyda fy ffrind gorau - aethon ni i wersylla i ardal y Lllynnoedd. Ron ni yn noffio yn y llyn. Roedd y dŵr yn oerach (bron i wneud iâ). Ron i'n trio pysgota, ddim ond trio achos chawson ni ddim yn «trucha». Cawson ni hwyl a lliw haul. Ron i'n bwyta asado ar ôl chwilio (yn y goedwig) am bethau i wneud tân.

Cawn ni weld beth dan ni am baratōi i'r haf sy'n dod...cawn ni weld.

Lorena Peralta, Porth Madryn

### Twmpath Dawns

Dydd Sadwrn, 2 o fis Mehefin yn Cymdeithas Dewi Sant, Trelew, cawson ni Twmpath Dawns am 8.30 o'r gloch.

Roedd hi'n noson bleserus achos mi wnaethon ni gyfarfod efo hen ffrindiau. Mi wnaethon ni siarad, chwerrthin a dawnio wrth gwrs!

Roedd Adriana, Rodolfo, Rhys a fi yn paratōi Twmpath Dawns a dysgu dawns a dawnio hefyd!

Wedyn, roedd social. Roedd pawb yn bwyta ac yfed, a siarad llawer. Roedd pobol ifanc isio ymarfer mwy achos maen nhw nawr isio paratōi dawns i Eisteddfod y Wladfa yn fis Hydref.

Croeso i bawb - os dach chi'n hoffi dawnio a neud ffrindiau newydd.

Graciela Colosante de Pinciroli, Trelew

## ATGOFION AM YSGOL SUL CAPEL SALEM LLE CUL

Mae atgofion cynes iawn gennyf amdanaf pan oeddwn yn blentyn yn mynd i'r ysgol Sul. Cerdded rhyw ddydd ffarm efo'm chwaer a byddem yn cael amser difyr efo'n ffrindiau a'r athrawes Mrs. Owen Charles Owen a'n taid John Owen yn holi y "Rhodd Mam", dysgu darllen y Beibl a dysgu adnoddau ar y cof. Hefyd trydwyf yn cofio gorffod dysgu Salm ar y cof ac Arthur Roberts, Llewelyn

Griffiths a Myfanwy Morgan yn gwneud yr arholiadau yn y Ffestriac wedyn disgwyl mawr faint o farciau oeddem wedi gael allan o 100. Mae llawer o ganeuon o Ganiedydd yr Ysgol Sul yn dod i'm cof "Plant bach Iesu Crist", "Draw, draw yn China" a llawer eraill. Hefyd cyhelid "Band of Hope" i baratōi at y Nadolig neu ryw amser pwysig arall. Roeddem yn cael hwyl dda - dysgu canu, partion,

deuawdau, pedwara wd, tra roedd Madog Williams wrth yr organ, - roedd ganddo daleni arbennig at ei chwarae.

Dyna dipyn bach o'r amser difyr hwnnw, ac fel mae adnod yn y Beibl yn dweud, peth ydym wedi ddysgu yn blentyn, mae yn aros. A heddiw 'rwyf yn diolch i Dduw fy mod wedi llwyddo i fagu y ddau blentyn yn y llwybr. Mae'r ferch a'r gwr a thri plentyn yn selog yn

gweithio efo plant yr Ysgol Sul yn y Gaiman a'r mab a'i wraig a'r ddwy ferch fach yn Ysgol Sul Porth Madryn, ac felly rhaid i mi ddiolch llawer am hynny - eu bod yn dal ymlaen yn ffordd yr Efengyl, sydd mor bwysig yn y dyddiau anodd yr ydym yn byw ynddynt.

Ond yr ydwyf yn teimlo yn reit drist gweld yr hen gapel bach ar gau'n nawr.

Sibyl Evans, Porth Madryn



Típica y tradicional Casa de Té

Con cálido y auténtico ambiente galés  
Los esperamos

Fila, Thomas

TORTAS / ARTS. REGIONALES  
MATHWS 74 / Tel 02965-4 91010  
GAIMAN - CHUBUT - PATAGONIA

De todo un poco

de Vivian Jones

BAZAR - LIMPIEZA - REGALERIA

E. Tello 230 - Gaiman